# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

# Y BIL STREICIAU (LEFELAU GWASANAETH GOFYNNOL)

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru pe byddai un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Ionawr 2023. Mae'r Bil ar gael yma: https://bills.parliament.uk/publications/49592/documents/2846

3. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn wedi'i osod y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos oherwydd diffyg ymgynghori ystyrlon gan Lywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Bil, absenoldeb Asesiad Effaith cyhoeddedig ac i'n galluogi ni i gwblhau ein dadansoddiad o gymhwysedd deddfwriaethol y Bil fel y'i cyflwynwyd.

## Amcanion polisi

4. Amcanion polisi penodedig Llywodraeth y DU yw:

    a. Sicrhau diogelwch y cyhoedd a gwarchod eu mynediad at wasanaethau cyhoeddus hanfodol.

    b. Cydbwyso'r hawl i streicio â gallu'r cyhoedd i gael mynediad at wasanaethau pwysig yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

    c. Ehangu ar ymrwymiad a wnaed ym maniffesto'r Blaid Geidwadol ar gyfer etholiad cyffredinol 2019 i'w gwneud yn ofynnol bod gwasanaeth gofynnol yn gweithredu yn ystod streiciau trafnidiaeth, drwy alluogi Llywodraeth y DU i reoleiddio ar gyfer lefelau gwasanaeth gofynnol mewn ystod o sectorau (sy'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus datganoledig fel iechyd ac addysg).

    d. Gosod lefelau gwasanaeth gofynnol drwy reoliadau mewn gwasanaethau penodol.

    e. Galluogi cyflogwyr i'w gwneud yn ofynnol i ddigon o weithwyr weithio er mwyn sicrhau bod lefelau gwasanaeth gofynnol yn cael eu darparu yn ystod streiciau mewn gwasanaethau perthnasol.

## Cyflwyno'r Bil ac ymdrin ag ef

5. Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Ionawr 2023. Pasiodd y Bil ei 2il

ddarlleniad ar 16 Ionawr 2023 ac yna pasiodd y cyfnod pwyllgor a'r 3ydd darlleniad ar 30 Ionawr 2023. Dechreuwyd ar ddarlleniad 1af y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 31 Ionawr 2023. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

6. Nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r Bil. Er i swyddogion Llywodraeth Cymru fynd at swyddogion yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sawl gwaith, 5 Ionawr 2023 oedd y tro cyntaf y cyfathrebwyd â swyddogion Llywodraeth Cymru ar y Bil. Daeth hyn yn dilyn datganiad i'r wasg gan Lywodraeth y DU yn gynharach y diwrnod hwnnw yn cyhoeddi'r bwriad o gyflwyno Bil. Gwrthododd swyddogion yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol rannu gwybodaeth sylweddol ynghylch y Bil y tu hwnt i'r wybodaeth yn y datganiad i'r wasg.

7. Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol gyflwyno'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Ionawr 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Menter, Marchnadoedd a Busnesau Bach at y Prif Weinidog yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ynghylch y ddeddfwriaeth.

**Crynodeb o'r Bil**

8. Mae'r Bil yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol i osod lefelau gwasanaeth gofynnol mewn perthynas â "gwasanaethau perthnasol" yn ystod cyfnodau o streicio. Mae'r Bil yn diwygio Deddf yr Undeb Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 ("Deddf 1992") i:

    a. cyfyngu ar amddiffyniad undebau llafur o dan Ddeddf 1992 rhag camau cyfreithiol mewn perthynas â streiciau yn ymwneud â "gwasanaethau perthnasol" ac ar amddiffyniad awtomatig gweithwyr rhag cael eu diswyddo'n annheg pan fo darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer lefelau gwasanaeth gofynnol a hysbysiad gwaith wedi'i gyhoeddi. Bydd y "gwasanaethau perthnasol" yn cael eu rhagnodi drwy reoliadau, yn dilyn ymgynghoriad.

    b. galluogi cyflogwyr i gyhoeddi hysbysiadau gwaith i'w gwneud yn ofynnol i lefelau gwasanaeth gofynnol gael eu darparu yn ystod streiciau penodol mewn gwasanaethau penodedig.

9. Mae'r Bil yn darparu y caiff rheoliadau sy'n rhagnodi'r lefelau gwasanaeth gofynnol nodi dim ond "gwasanaethau perthnasol" sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau a ganlyn:

    a. gwasanaethau iechyd
    b. gwasanaethau tân ac achub
    c. gwasanaethau addysg
    d. gwasanaethau trafnidiaeth
    e. datgomisiynu safleoedd niwclear a rheoli gwastraff ymbelydrol a thanwydd a ddisbyddwyd

f. diogelwch ar y ffin

10. Mae'r Bil yn gymwys i Gymru ac yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i osod lefelau gwasanaeth gofynnol drwy reoliadau mewn sectorau cyhoeddus datganoledig gan gynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub, a rhai gwasanaethau trafnidiaeth.

11. Mae gan y Bil y potensial i effeithio ar nifer o wasanaethau cyhoeddus datganoledig sy'n perthyn i'r categorïau hyn. Mae'r Bil hefyd yn mabwysiadu safbwynt polisi sy'n gwbl groes i'n ffordd o weithio yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth gymdeithasol.

**Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

12. Rwyf o'r farn bod angen cydsyniad Senedd Cymru mewn perthynas â'r cymalau a nodir isod i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig.

**Cymalau 1 a 2:**
Mae cymal 1 yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n diwygio Rhan 5 a darpariaethau eraill o Ddeddf 1992. Mae Rhan 5 o Ddeddf 1992 yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â gweithredu diwydiannol, gan gynnwys yr amodau y mae rhaid eu bodloni er mwyn diogelu streiciau rhag achosion camwedd. Mae cymal 2 yn diffinio mai ystyr Deddf 1992 yw Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992. Mae'n ofynnol cael cydsyniad i'r graddau bod cymal 1 yn cyflwyno'r Atodlen sy'n galluogi rheoliadau i gael eu gwneud yng nghategorïau gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub, a rhai gwasanaethau trafnidiaeth, sy'n faterion datganoledig. Mae cymal 2 yn ddarpariaeth ddehongli at ddibenion cymal 1 felly mae angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn hefyd.

**Cymal 3:**
Mae'r cymal hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud diwygiadau canlyniadol drwy reoliadau cadarnhaol i ddeddfwriaeth sylfaenol, a gwneud diwygiadau canlyniadol i unrhyw ddeddfwriaeth arall drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i ddirymiad drwy benderfyniad gan unrhyw un o ddau Dŷ Senedd y DU yn unol â'r weithdrefn negyddol. Mae angen cydsyniad i'r graddau bod y cymal hwn yn caniatáu i ddiwygiad canlyniadol gael ei wneud i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub a materion trafnidiaeth cyfyngedig. Nodir hefyd bod y pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi diwygio, diddymu neu ddirymu Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru. Mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 3 i'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.

**Rhan 1 o'r Atodlen**

**Mae paragraffau 1 a 2 o'r Atodlen yn diwygio Deddf 1992 i ychwanegu'r adrannau newydd a ganlyn:**

**Adran newydd 234B:** Mae'r adran hon yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer lefelau gwasanaeth pan fo streiciau mewn gwasanaethau perthnasol. Mae is-adran (4) yn rhestru'r categorïau y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ynddynt drwy reoliad ar gyfer lefelau gwasanaeth mewn perthynas â streiciau. Mae'r categorïau hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd; gwasanaethau tân ac achub; gwasanaethau addysg; gwasanaethau trafnidiaeth; datgomisiynu safleoedd niwclear a rheoli gwastraff ymbelydrol a thanwydd a ddisbyddwyd; diogelwch y ffin. Mae angen cydsyniad i’r graddau y mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub a rhai materion trafnidiaeth.

**Adran newydd 234C:** Mae'r adran hon yn sefydlu sut mae hysbysiadau gwaith sy'n ymwneud â lefelau gwasanaeth gofynnol yn gweithredu. Ystyrir mai diben hysbysiad gwaith yw 'gweithredoli' a cheisio sicrhau fod lefelau gwasanaeth gofynnol yn cael eu bodloni, gan gynnwys mewn sectorau datganoledig. Mae angen cydsyniad i'r graddau bod yr adran hon yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub, a rhai materion trafnidiaeth.

**Adran newydd 234D:** Mae'r adran hon yn darparu, pan fo angen enwi unigolion mewn hysbysiadau gwaith, ni fydd hyn yn torri cyfrinachedd y mae’n rheidrwydd i’r cyflogwr ei gadw nac yn torri unrhyw gyfyngiadau eraill ar ddatgelu gwybodaeth. Fodd bynnag, rhaid i'r cyflogwr gadw at ddeddfwriaeth diogelu data ac mae’r broses o roi hysbysiadau gwaith i'w hystyried wrth asesu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth honno. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth o ran gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub a rhai materion trafnidiaeth, sy’n faterion datganoledig ac felly mae angen cydsyniad.

**Adran 234F:** Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal ymgynghoriad cyn i reoliadau gael eu gwneud o dan adran 234B. Mae'r adran hon yn rhoi mwy o rym i wahanol fathau o ddarpariaeth gael eu gwneud megis darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth atodol. Mae rheoliadau i ddilyn y weithdrefn gadarnhaol ac mae’n ofynnol iddynt gael cymeradwyaeth dau Dŷ Senedd y DU. Mae angen cydsyniad i'r graddau y gall rheoliadau o dan adran 234B gael eu gwneud mewn perthynas â chategorïau gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub a rhai materion trafnidiaeth. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub a rhai materion trafnidiaeth felly mae angen cydsyniad.

**Adran 234G:** Mae'r adran hon yn nodi ystyr gwahanol dermau diffiniedig a ddefnyddir yn y Bil. Mae'n ofynnol cael cydsyniad i'r graddau bod yr adran hon yn gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub a rhai materion trafnidiaeth.

**Darpariaethau yn y Bil nad oes angen cydsyniad ar eu cyfer**

13. Rwyf o’r farn nad oes angen cydsyniad Senedd Cymru ar gyfer y cymalau a ganlyn fel y nodir isod:

**Rhan 2 o'r Atodlen**
**Paragraffau 3 i 10:**
Mae'r paragraffau hyn yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1992 mewn perthynas ag (a) a yw rhai streiciau wedi'u diogelu rhag atebolrwydd camweddus i'r undeb ai peidio a (b) sicrhau nad oes amddiffyniad awtomatig rhag diswyddo annheg i weithiwr a nodir mewn hysbysiad gwaith dilys ond sy'n cymryd rhan yn y streic yn groes i'r hysbysiad gwaith hwnnw, ar yr amod bod y cyflogwr wedi cydymffurfio â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Ystyrir bod y darpariaethau hyn wedi'u cadw yn ôl oherwydd cymal cadw 141 – dyletswyddau a hawliau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol, gan gynnwys pwnc Deddf 1992, fel a ragnodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Cymalau 4 i 6**
Mae cymalau 4 i 6 yn ymwneud â graddau, cychwyn, a theitl byr y Bil. Nid yw'r darpariaethau hyn yn cael unrhyw effaith gyfreithiol felly nid oes angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hyn.

**Safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

14. Nid yw Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad y Senedd ac mae hi’n ystyried y darpariaethau yn y Bil yn rhai a gedwir yn ôl. Mae safbwynt Llywodraeth y DU wedi'i nodi mewn llythyr gan y Gweinidog Menter, Marchnadoedd a Busnesau Bach at y Prif Weinidog ar 10 Ionawr 2023. Nodir cynnwys y llythyr isod:

a. *“The Bill will extend and apply to England and Wales and Scotland. Employment rights and duties and industrial relations, including the subject matter of the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992, are reserved to Westminster for Scotland and Wales.”*

b. *“Whilst the services to which minimum service levels may apply include areas that could generally be regarded as “devolved areas” (for example, healthcare, education, fire services, parts of transport, environment), the main purpose and substance of the Bill is in respect of regulating employment rights and duties and industrial relations in those areas and not the area itself. Specifying which*

*services minimum service levels will apply to and making regulations that set out these minimum service levels, only applies where there are strikes. This is a reserved matter, and the operational effects on any devolved services are incidental to this. Further, whilst the Bill may affect the delivery of public services by the Welsh Government, this is only in respect of the Welsh Government's capacity as an employer, so does not alter executive competence."*

c. *"Therefore, the UK Government does not consider that the legislative consent process is engaged as the Bill only legislates on reserved matters.*

**Goblygiadau ariannol**

15. Nid yw goblygiadau ariannol y Bil yn eglur gan nad yw'r Asesiad Effaith ar gyfer y Bil wedi ei gyhoeddi.

**Casgliad**

16. Yn fy marn i, mae'r broses Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn mynd rhagddi, ac rwy'n gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn ar y cymalau perthnasol a geir yn y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol) sy'n gwneud darpariaeth o ran materion datganoledig gwasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg, gwasanaethau tân ac achub, a rhai gwasanaethau trafnidiaeth. Mae'r Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i osod lefelau gwasanaeth gofynnol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig y mae Gweinidogion Cymru yn atebol ac yn gyfrifol amdanynt. Ar ben hynny, mae'r Bil yn cynnwys pwerau eang a allai effeithio ar ddeddfwriaeth y bydd y Senedd yn ei phasio yn y dyfodol. Cafodd y Bil ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin heb unrhyw ymgysylltiad ystyrlon â Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ruthro drwy ddau Dŷ Senedd y DU heb roi sylw dyladwy i'w gysylltiad clir iawn â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig Cymru. Felly, rwy'n argymell nad yw'r Senedd yn cefnogi'r cynigion a'i bod yn atal ei chydsyniad i'r Bil.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

9 Chwefror 2023